SESIWN 1: TRIN A THRAFOD LLUNIAU

Ystod oedran: 5-8 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn meithrin eu sgiliau iaith lafar drwy drin a thrafod lluniau a dynnwyd gan blant yn Fiet-nam sy'n dangos agweddau ar eu bywydau bob dydd. Bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach cyn dod i wybod mwy am rai o'r lluniau a drafodwyd ganddynt.

Amcanion dysgu

- Defnyddio lluniau i drin a thrafod agweddau ar fywyd bob dydd mewn diwylliant arall.
- Defnyddio trafodaeth i feithrin dealltwriaeth drwy ddyfalu, damcaniaethu, dychmygu ac archwilio syniadau.
- Gofyn cwestiynau perthnasol i estyn dealltwriaeth a gwybodaeth.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn dod i wybod gwybodaeth gefndir am Fiet-nam.
- Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i drafod, i archwilio ac i drefnu lluniau.
- Bydd y dysgwyr yn gofyn cwestiynau perthnasol i estyn eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei weld yn y lluniau.
- Bydd y dysgwyr yn gwrando ar y straeon sy'n gefndir i rai o'r lluniau a drafodwyd ganddynt.

Cwestiynau allweddol

- Beth yr ydych yn meddwl y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud?
- Pam yr ydych yn meddwl eu bod nhw'n gwneud hyn?
- Pa label fyddai'n addas ar gyfer eich llun chi: chwarae, helpu neu rannu?
- Ble'r ydych yn meddwl y gallai'r bobl yn y llun fod? Beth yw'r lleoliad?
- Beth arall yr ydych yn gallu ei weld yn y llun?
- Ydych chi erioed wedi gwneud rhywbeth tebyg i'r bobl yn eich llun?

Adnoddau

- *Lluniau i'w trin a'u trafod*
- *Labeli trefnu*
- *Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau*
- Sioe sleidiau: sleidiau 2 i 8
- Tri chylch â'r labeli a ganlyn arnynt: 'Chwarae', 'Helpu' a 'Rhannu'.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Amlinelliad o'r gweithgareddau

Tasg gychwynnol *(10 munud)*
Croeso i Fiet-nam

- Dechreuwch drwy ofyn i'r dysgwyr am beth y maent yn ei feddwl pan fyddant yn clywed y gair Fiet-nam. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o ddod i wybod faint y mae'r dysgwyr eisoes yn ei wybod neu'n ei ragdybio am thema benodol. Efallai bod gan blant yn y dosbarth eisoes gysylltiadau y gellir adeiladu arnynt. Beth y mae'r dysgwyr yn meddwl y maent yn mynd i ddod i'w wybod am Fiet-nam? Ar ddiwedd y gwersi hyn, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg drwy'r gweithgaredd hwn i bwyso a mesur sut y mae canfyddiadau a gwybodaeth y dysgwyr wedi newid.
- 'Nawr, defnyddiwch sleidiau 2 i 7 i gyflwyno'r dysgwyr i rai delweddau o Fiet-nam. Ewch ati i annog y dysgwyr i archwilio'r lluniau drwy ofyn y cwestiynau yng Ngweithgaredd 1.1 isod. Mae'r cwestiynau hyn hefyd i'w gweld ar sleid 8, a bydd yr un cwestiynau'n cael eu defnyddio'n ddiweddarach i archwilio lluniau eraill.
- Anogwch y dysgwyr i ddechrau gofyn eu cwestiynau eu hunain am yr hyn y maent yn ei weld.

Noder: Mae'r adnodd hwn yn cynnwys awgrymiadau pellach ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys gwaith mapiau, y byddai modd eu defnyddio hefyd i gyflwyno'r dysgwyr i Fiet-nam.

Gweithgaredd 1.1 *(20 munud)*
Trin a thrafod lluniau

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o oddeutu dri, a rhowch un o'r deg llun i bob grŵp (gweler *Lluniau i'w trin a'u trafod*). Eglurwch mai plant ysgol o Fiet-nam sydd wedi tynnu'r lluniau hyn.
- Gofynnwch i'r dysgwyr gydweithio i archwilio eu llun drwy ateb y cwestiynau hyn (a ddangosir ar sleid 8 hefyd):
    - **Pwy** yr ydych n meddwl yw'r bobl hyn?
    - **Beth** yr ydych yn meddwl y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud?
    - **Pam** yr ydych yn meddwl eu bod nhw'n gwneud hyn?
    - **Ble'r** ydych yn meddwl y gallai'r bobl yn y llun fod?
    - **Pryd** yr ydych yn meddwl y cafodd y llun ei dynnu?
    - Beth arall yr ydych yn gallu ei weld yn y llun?
    - A ydych erioed wedi gwneud rhywbeth tebyg i'r bobl yn eich llun?
    - Pa gwestiynau y gallech eu gofyn i gael gwybod rhagor am yr hyn sy'n digwydd yn eich llun a pham?

Noder: Weithiau, efallai na fyddwch chi na'ch dysgwyr yn gallu ateb y cwestiynau, ond y nod yw defnyddio'r gweithgaredd hwn i drafod arsylwadau'r dysgwyr ac i ddechrau cyfiawnhau eu syniadau. Byddai modd trefnu'r lluniau i'r categorïau a ganlyn:

- *Chwarae: Lluniau 2, 4 ac 8*
- *Helpu: Lluniau 3, 4, 5, 6, 7 a 9*
- *Rhannu: Lluniau 1, 3, 4 a 10*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr weithio mewn grŵp mwy o faint gyda chymorth yr athro, a mynd ati i archwilio dau neu dri llun.

Gwneud pethau'n anos: Gallai'r dysgwyr anodi eu llun drwy ddefnyddio labeli a nodiadau i gofnodi eu trafodaeth a'u cwestiynau.

Gweithgaredd 1.2 *(15 munud)*
Trefnu a rhannu

- Rhowch dri chylch ym mlaen yr ystafell ddosbarth a rhowch y labeli 'Chwarae', 'Helpu' a 'Rhannu' arnynt (gweler y *Labeli trefnu* isod). Rhowch wybod i'r dysgwyr y byddwch yn gofyn iddynt roi eu llun yn y cylch sy'n disgrifio'r hyn y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud orau ym marn y grŵp.
- Gofynnwch i'r dysgwyr roi eu llun yn y cylch mwyaf priodol. Atgoffwch y dysgwyr i ystyried yn ofalus a fyddai modd rhoi'r llun mewn mwy nag un cylch.
- Ewch ati fel dosbarth cyfan i gael trafodaeth gryno am y cylchoedd lle y mae'r dysgwyr wedi rhoi'r lluniau. Pa rai oedd yn anodd eu trefnu a pham? A oedd llawer o'r lluniau'n gorgyffwrdd â chylchoedd eraill?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymuno â'r grwpiau eraill sydd wedi rhoi eu lluniau yn yr un cylch. Gofynnwch i bob grŵp ddweud wrth y lleill yn eu grŵp mwy o faint beth y buont yn ei drafod ynghylch eu llun nhw, a pha gwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn i gael gwybod mwy.
- Fel grŵp, gofynnwch i'r dysgwyr gytuno pa lun y byddent yn hoffi cael gwybod mwy amdano a chlywed y stori sy'n gefndir iddo.

Gwahaniaethu
Gwneud pethau'n anos: Efallai y byddech yn hoffi gosod y cylchoedd fel eu bod yn gorgyffwrdd os oes gennych ddysgwyr sy'n gyfarwydd â diagramau Venn.

Sesiwn lawn *(15 mun)*

- Gofynnwch i bob grŵp rannu pa lun y byddent yn hoffi clywed y stori sy'n gefndir iddo a pha gwestiwn y byddent yn hoffi ei ofyn.
- Darllenwch y straeon sy'n cyd-fynd â'r lluniau a ddewiswyd ganddynt (gweler *Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau* isod). Eglurwch mai plant yn Fiet-nam sydd wedi tynnu'r lluniau hyn ac mai'r plant hyn sydd wedi adrodd y straeon sy'n gefndir iddynt hefyd.
- Ewch ati fel grŵp i ystyried a yw cwestiynau'r dysgwyr wedi'u hateb ai peidio. A yw hi'n bosibl ateb y cwestiynau drwy graffu'n fanwl ar y llun? A all y dosbarth ddyfalu beth yw'r ateb tebygol ar sail yr hyn y maent yn ei wybod nawr? Ble y gallent gael hyd i'r atebion? A oes unrhyw gwestiynau nad yw'n bosibl eu hateb?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Syniadau pellach

- Gallwch estyn yr hyn y mae'r dysgwyr yn ei ddeall am fywydau bob dydd y plant yn Fietnam drwy ddarllen y straeon sy'n cyd-fynd â'r lluniau eraill.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Lluniau i'w trin a'u trafod

Llun 1

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả/Awdur: Dương Thị Kim Trang / Dan tộc/Grŵp ethnig: Chăm / Trường Tiểu học Bỉnh Nghĩa / Huyện Thuận Bắc, tỉnh Ninh Thuận

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 2

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Katơr Thị Yến / Dân tộc / Grŵp ethnig: Raglai / Trường Tiểu học Phước Tân A, Huyện Bác Ái, tỉnh Ninh Thuận

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 3

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Dương Thị Kim Trang / Dan tộc / Grŵp ethnig: Chăm / Trường Tiểu học Bình Nghĩa, Huyện Thuận Bắc, tỉnh Ninh Thuận

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 4

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Dương Thị Kim Trang / Dan tộc / Grŵp ethnig: Chăm / Trường Tiểu học Bỉnh Nghĩa, Huyện Thuận Bắc, tỉnh Ninh Thuận

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 5

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Lừu Thị Lếnh / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru THCS xa Mản Thẩn, / Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 6

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Vang Thị Mao / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru THCS xa Mản / Thẩn, Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Llun 7

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Vang Thị Tố Quyen / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru THCS xa Mản Thẩn, Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 8

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Sung Anh Nguyệt / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru Tiểu học xa / Mản Thẩn, Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 9

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Lừu Seo Sềnh / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru Tiểu học xa / Mản Thẩn, Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Llun 10

Cydnabyddiaeth y llun: Tác giả / Author: Thành Thị Thiên Lý / Dân tộc / Grŵp ethnig: Chăm / Trường THCS Hà Huy Tập, Huyện Thuận Bắc, tỉnh Ninh Thuận

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Labeli trefnu

Chwarae

Helpu

Rhannu

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Y straeon sy'n gefndir i'r lluniau

Llun 1

Mae'r plant hyn yn cael eu cinio yn yr ysgol. Maent yn cael gwersi yn ystod y bore a'r prynhawn, felly mae pawb yn aros yn yr ysgol i gael cinio. Mae'r cogydd a'r athrawon yn paratoi'r bwyd gyda'i gilydd. Mae yna lawer o brydau gwahanol, er enghraifft porc, omled, wyau a chawl sur. Fel y gallwch ei weld yn y llun, maent yn bwyta reis a llysiau i ginio heddiw.

Reis yw un o'r prif fwydydd sy'n tyfu yn Fiet-nam. Mae angen digonedd o law a hinsawdd gynnes i dyfu reis. Heddiw, mae Fiet-nam yn tyfu digon o reis i fwydo ei phobl ei hun, ac mae hefyd yn gwerthu reis i wledydd eraill.

Mae addysg yn bwysig iawn i bawb yn fy ysgol i. Bydd yn ein helpu i gael bywyd gwell pan fyddwn yn hŷn. Mae ar fy ysgol i eisiau i bawb ffynnu. Mae'r ysgol wedi adeiladu ffreutur er mwyn i'r plant allu aros yn hirach a dysgu mwy. Mae fy ysgol i hefyd wedi adeiladu gardd *bonsai* gyda choed bach iawn ynddi, llyfrgell werdd, a dwy ystafell ddosbarth ychwanegol. Mae fy ysgol i wedi gwneud llawer o bethau yr ydym wrth ein bodd â nhw, ac rydw i'n gobeithio y bydd yn dal ati i wneud pethau newydd a diddorol.

Llun 2

Tynnais y llun hwn o'm ffrindiau mewn ffair yn ein rhanbarth. Mae holl blant y pentref wrth eu bodd yn dod yma, ond dydyn ni ddim yn dod yn aml oherwydd ei bod yn eithaf pell i ffwrdd. Mae tocyn i gael un reid yn costio tua £1, felly mae'n ddrud iawn i ni a dydy'r reid ddim yn para'n hir iawn.

Dydw i ddim yn hoffi mynd yn y ceir clatsio oherwydd bod ofn arna i. Rydw i'n hoffi chwarae ar y trên. Mae llawer o bethau i'w gwneud yn y ffair – mae'n fawr iawn.

Rydw i'n hoffi'r llun hwn oherwydd fy mod yn teimlo mor hapus bob tro y byddaf yn cael mynd i'r ffair. Mae arna i eisiau i'm rhieni fynd â mi allan yn amlach a gadael i mi gael tro ar reidiau newydd. Rydw i'n gobeithio y bydd maes chwarae yn cael ei adeiladu yn fy mhentref oherwydd mae arnaf eisiau i bob plentyn gael rhywle i chwarae fel nad oes rhaid i ni deithio i leoedd eraill i gael hwyl.

Llun 3

Mae'r llun hwn yn dangos fy nhri ffrind yn golchi eu dwylo cyn cael cinio. Mae Chuong yn saith oed ac mae'n helpu Thanh, sy'n bedair oed, i olchi ei ddwylo. Mae Mai yn ddwy oed a dydy hi ddim yn mynd i'r ysgol eto.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Yn Fiet-nam, does gan lawer o'r bobl sy'n byw yng nghefn gwlad ddim tapiau yn eu cartrefi. Rydym yn defnyddio ffynhonnau neu danciau sy'n storio'r dŵr. Mae Chuong a Thanh ar ben y tanc dŵr sy'n agos iawn at dŷ Chuong. Maent yn defnyddio bwced sydd wedi ei glymu at raff i dynnu'r dŵr i fyny o'r tanc, yna rydym yn ei arllwys i bowlen er mwyn golchi. Rydym yn ceisio cadw'r ardal o amgylch y tanc dŵr yn lân iawn fel nad oes baw yn disgyn i'r tanc ond, er hyn, mae'r dŵr yn gallu mynd yn fudr weithiau. Heb ddŵr glân, mae'n anoddach cadw'n lân ac yn iach. Rydym yn fwy tebygol o fod yn sâl oherwydd bod dŵr budr yn gallu cario clefydau.

Llun 4

Yn y llun hwn, mae tair chwaer, My, Ganh a Hoa, yn mynd â'r byfflos i fyny'r bryn i bori. Mae byfflos yn bwysig iawn i deuluoedd sy'n byw yng nghefn gwlad Fiet-nam. Ychydig iawn o ffermwyr yn y bryniau lle rydym yn byw sy'n berchen ar dractor neu beiriannau eraill. Y byfflo yw'r unig anifail sy'n gallu tynnu'r aradr a symud yn rhwydd trwy'r caeau reis mwdlyd a gludiog.

Rydym yn caru ein byfflos. Trwy dynnu'r llun hwn, rydw i am ddangos i bawb bod yn rhaid i ni ofalu am wartheg y teulu oherwydd eu bod o gymorth mawr i ni. Pan fyddwn yn mynd â'r byfflos i bori'r glaswellt yn y bryniau, byddwn yn aml yn cael hwyl yn chwarae gemau tebyg i chwarae mig.

Un tro, roeddem mor brysur yn chwarae nes i ni anghofio'n llwyr am y byfflos. Erbyn i ni edrych i fyny, roeddent wedi diflannu. Rhedais adref i ddweud wrth fy rhieni ac i ofyn i'r pentrefwyr eraill ein helpu. Drwy lwc, cawson hyd iddynt ar ôl chwilio.

Llun 5

Mae rhai plant yn byw yn bell oddi wrth yr ysgol, felly maent yn aros yn yr ysgol breswyl ac yn mynd adref ar benwythnosau. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r plant sydd wedi bod yn preswylio yn yr ysgol yn cael ychydig o arian i'w roi i'w teuluoedd. Mae mynd i'r ysgol yn beth da oherwydd ein bod yn cael digonedd o fwyd da, a bod ein hathro yn coginio'r bwyd i ni. Os nad ydym yn llawn ar ôl bwyta, gallwn ofyn i gael rhagor o fwyd.

Tynnais y llun hwn o'm ffrindiau yn golchi eu tuniau bwyd ar ôl cael cinio yn llety'r ysgol. Ar ôl i ni eu golchi, rydym yn eu dychwelyd i'n hystafelloedd dosbarth, yna rydym yn mynd allan i chwarae am ychydig cyn i'r gwersi ddechrau eto. Does neb o'm ffrindiau yn gweld eisiau'r ysgol oherwydd ein bod yn aros yma. Mae ein teuluoedd yn gweithio'n galed er mwyn i ni allu aros yn yr ysgol a chael cyfle i ddysgu mwy a gwneud yn well yn yr ysgol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Tynnais y llun hwn i ddangos ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud pethau drosom ein hunain yn yr ysgol. Rydym yn plygu ein blancedi ac yn golchi ein platiau. Rydym yn ceisio helpu ein gilydd.

Llun 6

Yn y llun hwn, mae fy ffrind, Tra, a'i mam yn golchi dillad ger eu cartref. Dim ond am ychydig o flynyddoedd y bydd llawer o ferched Fiet-nam yn gallu mynd i'r ysgol. Yna, bydd rhaid iddynt adael oherwydd bod angen iddynt helpu eu teuluoedd gyda gwaith. Mae Tra yn lwcus oherwydd ei bod yn gallu aros yn yr ysgol yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn golygu nad yw'n colli'r cyfle i ddysgu.

Mae Tra yn aml yn mynd adref i helpu ei rhieni ar benwythnosau. Mae'n helpu gyda llawer o dasgau. Mae'n coginio, yn golchi dillad, yn casglu coed tân, ac yn gwneud tasgau eraill o amgylch y tŷ. Dysgodd Tra olchi dillad pan oedd yn chwech neu'n saith oed. Mae'n anodd iawn golchi dillad yn y gaeaf. Mae'r dŵr yn rhewi ac mae ei dwylo'n fferru oherwydd yr oerfel.

Llun 7

Tynnais y llun hwn o'm ffrindiau yn gofalu am y llysiau yng ngardd yr ysgol. Rydym yn mynd i gryn drafferth i ofalu am y llysiau, ac yna rydym yn eu gwerthu i'r ysgol i godi arian ar gyfer cronfa'r dosbarth. Mae hyn yn talu am bethau tebyg i ysgubau ar gyfer y dosbarth, neu rwydi ar gyfer ffens yr ardd. Os nad yw plant yn helpu i dyfu llysiau, mae'n rhaid iddynt ofyn i'w rhieni roi ychydig o arian i gronfa'r dosbarth. Mae'r athro hefyd yn helpu os nad oes gan rai teuluoedd ddigon o arian.

Mae pawb yn hapus i ofalu am y llysiau. Mae'n hwyl ac mae'n helpu ein hysgol. Rydym hefyd yn dysgu sut i dyfu ein bwyd ein hunain. Rydym yn bwyta'r bwyd yr ydym yn ei dyfu!

Llun 8

Tynnais y llun hwn o'm ffrindiau'n chwarae pêl-droed ar iard yr ysgol. Byddwn yn aml yn chwarae pêl-droed amser cinio.

Gall fod yn boeth yn ystod tymor y glawogydd, sy'n para o fis Mai tan fis Medi, oherwydd nid oes gennym unrhyw laswellt na chysgod. Ond rydym yn mwynhau chwarae oherwydd ein bod yn byw mewn ardal anghysbell ac rydym yn gwybod ei bod yn anodd darparu llawer o adnoddau ar ein cyfer. Mae pêl-droed yn gamp boblogaidd iawn yn Fiet-nam, ac rydym yn cynnal cystadlaethau gydag ysgolion

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

eraill. Rydym yn ymarfer yn aml, gan obeithio ennill medalau ar gyfer ein hysgol. Mae pêl-droed yn llawer o hwyl ac mae hefyd yn ein cadw'n iach.

Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau chwaraeon eraill yn ein hardal lle bydd ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Bydd llawer o bobl yn gwylio, a byddwn yn gweiddi'n groch i gefnogi ein timau mewn cystadlaethau tebyg i dynnu rhaff a rasys sach.

Llun 9

Yn Fiet-nam, mae'r gwyntoedd monsŵn yn dod â glaw trwm a thywydd poeth rhwng mis Mai a mis Medi. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y caeau reis yn aml dan ddŵr. Tynnais y llun hwn o'm ffrindiau'n dal pysgod yn y caeau i'w bwyta i swper.

Pryd bynnag y bydd ganddynt amser rhydd, bydd y plant yn gofyn i gael mynd i bysgota gyda'i gilydd. Mae llawer o bysgod yn y cae hwn, ac mae'n hwyl eu dal gyda'n dwylo er bod y mwd yn llithrig iawn. Os byddwn yn baeddu ein dillad, ni fydd ein rhieni'n flin gyda ni oherwydd ein bod yn helpu i gael hyd i fwyd ar gyfer y teulu cyfan.

Bydd ein mamau yn aml yn coginio'r pysgod y byddwn yn eu dal gyda mwstard Tsieina wedi'i biclo, sy'n arogli'n fendigedig. Gall y pysgod hefyd gael eu defnyddio i wneud cawl neu eu grilio dros dân.

Llun 10

Mae'r rhan fwyaf o bobl Fiet-nam yn caru ac yn parchu eu teuluoedd yn fawr iawn. Bydd y mab hynaf yn aml yn byw gyda'i rieni pan fydd yn dod i oed, a bydd y teulu'n gofalu am y neiniau a'r teidiau yn eu henaint. Mae'r bachgen bach hwn yn agos iawn at ei dad-cu, sy'n byw gydag e.

Yn y llun hwn, mae'r tad-cu a'i ŵyr yn rhannu pryd syml iawn. Maent yn bwyta reis gyda physgod wedi'u halltu a llysiau. Maent yn gwneud llawer o bethau gyda'i gilydd, er enghraifft casglu coed tân, mynd i'r caeau, a physgota.

Bob dydd ar ôl yr ysgol, bydd yr ŵyr yn dod adref a bydd ei dad-cu yn rhoi gwersi ychwanegol iddo. Weithiau, bydd y bachgen bach hwn yn mynd i bysgota neu i nofio gyda phlant eraill yn lle mynd i'r ysgol. Weithiau, bydd yn casglu caniau alwminiwm a phlastig a daflwyd gan bobl. Bydd yn gwerthu'r pethau hyn i ennill ychydig mwy o arian i'w deulu. Pan fydd ei dad-cu yn dod i wybod nad yw ei ŵyr wedi bod i'r ysgol, bydd yn dweud wrtho pa mor bwysig yw dysgu, a bydd yn dychwelyd i'r ysgol.

Tynnais y llun hwn i ddangos sut y mae angen i blant barchu eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.